

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangernyw

Nos Fercher Ebrill 25^{ain} 2018 yn Nghanolfan Bro Cernyw am 7.30yh

1) Croesawyd pawb gan Gwyn Williams (GW)

Ymddiheuriadau: Elen Haf Edwards (EHE), Gwydion Jones (GJ)

Presennol: Garffild Lloyd Williams (GLW), Einir Williams (EW), Diane Roberts (DR), Emlyn Williams (REW), Gwynfor Davies (GD), Ann Vaughan (AV), Gerallt Evans (GE) Clwyd Roberts (CR)

2) Datgan cysylltiad:

GLW ac EW parthed Eitem 6 (cais cynllunio Cefn Ffynnon), AV parthed Eitem 16.

3) Cofnodion cyfarfod Mawrth 20fed 2018

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir. DR yn cynnig, REW yn eilio.

4) Materion yn codi o gofnodion cyfarfod Mawrth 20fed 2018

- Blodau yn dod drosodd I'r llwybr wrth Ty'r Gôf wedi eu torri nôl (AV)
- Camfa wrth Twlc Llangernyw, cerddwyr gyda chŵn wedi torri y ffens weiar. Angen Ymweliad safle. GW i drefnu hyn.
- Meiron Owen yn gallu mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned ar nos Fercher Mai y 23ain (AV)

5) Materion Ffyrdd ac Amgylchedd

Pont Hafod Bach – mae'r Cyngor wedi cytuno eu bod am drwsio'r ffordd mewn dau ran yn hytrach na chau'r ffordd fel a fwriadwyd. Fydd hyn yn golygu goleuadau ffyrdd am gyfnod o wythnosau ond cytunwyd bod hyn yn llawer gwell na chau y ffordd yn llwyr.

Nodwyd bod GLW a EHE wedi gwneud llawer o waith cefndirol yn trafod gyda'r Cyngor i arbed cau'r ffordd A548 yn llwyr. Diolchwyd iddynt am eu hymdrech gan y Cadeirydd (GW)

6) Ceisiadau Cynllunio

Defnyddiwyd y cysylltiad gwê 'Conwy Am Ddim' yn y Ganolfan i edrych ar y ceisiadau Cynllunio ar y 'Fforiwr Ceisiadau Cynllunio' Gwefan Cyngor Conwy.

- Cais 0/045045, Cefn Ffynnon – (GLE) a (EW) yn gadael y draffodaeth. Pob aelod yn gefnogol i'r cais ar y sail mae ethos y Cyngor yw i gefnogi mentrau pobl ifanc y fro, er mwyn eu annog i aros yn yr ardal.
- Cais 0/044970, Esgair Eithin a Pen Gloddfa – fe ddaeth Non Davies i annerch y Cyngor am 3 munud ar gefndir y cais, a'u bwriad o achub adeilad hanesyddol rhag mynd yn furddyn drwy ei adnewyddu fel rhan o'u cynlluniau i sefydlu maes cabannau gwyliau fel prosiect arallgyfeirio. Mi fydd Tom Davies yn ymgymeryd a'r gwaith cerrig ar Pen Gloddfa ei hun. Diolchwyd i Non Davies am ei anerchiad gan y Cadeirydd. Yn dilyn yr anerchiad, fe aeth Non a Tom Davies allan o'r cyfarfod.
Roedd yr aelodau yn unfrydol o blaid y datblygiad. Sylwadau y Cyngor oedd eu bod yn gefnogol o ymdrechion teulu lleol mewn datblygiad wnai hybu economi cefn gwlad gan wneud defnydd o sgiliau crefft lleol yn y broses.

7) Materion parthed swydd y Clerc

7.1 EW wedi gofyn i Elwen gyflwyno ei ymddiswyddiad swyddogol i'r Cyngor

7.2 EW wedi gofyn i Elwen am wneud cais swyddogol i'r Cyngor am yr Ôl-Daliad sydd yn ddyledus iddi gan y Cyngor. Trafodwyd trefnu cydnabyddiaeth iddi. Mae hyn i'w roi ar agenda y cyfarfod nesa.

7.3 Adroddod EW yn ôl ar gyflogau Clerc mewn cyngorau eraill. Nodwyd bod un cyngor tebyg i Gyngor Llangernyw yn talu cyflog o £10/awr i'w clercc. Roedd cyngor tref Penmaenmawr yn cynnig talu £15/awr i glerc dros dro yn ddiweddar.

Penderfynwyd bod yn rhaid codi y cyflog mae Cyngor Cymuned Llangernyw yn gynnig er mwyn trio denu ymgeiswyr i swydd y Clerc. Cynnigwyd bod y swydd yn cael ei ail hysbysebu ar sail bod y cyflog yn £10/awr am 8 awr yr wythnos gan gynnig cyfnod prawf o dri mis i ddechrau. GD yn Cynnig, CR yn eilio.

Nodwyd ein bod angen gwneud ymholiadau ynglyn â chynnig pensiwn i'r Clerc newydd yn unol â'r ddefwriaeth gwlad newydd.

Hysbysebu yn y Gadlas a Phapurau Bro eraill eto.

7.5 GD wedi ymholi yn y banc parthed newid y mandad, gan bod angen tynnu enw Elwen fel Clerc a chymeryd y cyfle i dynnu enw Ian Griffiths yr un pryd. Proses i'w gyflawni ar y wê. Roedd GD yn pryderu gan bod nifer fawr o filiau wedi dod i'r Cyngor a rheini heb eu talu gan nad oedd y Cyngor yn sicr o'u sefyllfa o ran arwyddo sieciau. EW wedi holi Un Llais Cymru ar ran y Cyngor, a oedd yn rhaid i Glerc arwyddo a sut roeddem ni'n gwneud hynny heb Glerc mewn swydd.

Daeth ymateb ar ebost yn cadarnhau ga'i Elwen arwyddo sieciau yn y cyfnod argyfwng ond roedd angen i'r Cyngor sicrhau bod GD yn cael ei nodi fel 'Swyddog Ariannol' ar y mandad cyn gynted â phosib. GD am wneud hyn, ac am holi am gymorth gyda'r broses ar y wê gan EHE.

7.6 Eglurodd EW bod y Cyngor wedi derbyn ebost gan y cyfrifydd yn holi oedd eisiau cau y Payroll ar gyfer y Clerc yn dilyn ymddiswyddiad Elwen. Penderfynnwyd hysbysu y cyfrifydd y dylid ei gadw'n agored ar gyfer yr Ôl-daliad, yn ogystal â'r gobaith o gyflogi Clerc newydd.

Fe wnaeth EW ebostio Mari Lloyd, cyfrifydd yn Iona Edwards yn hysbysu hyn yn ystod y cyfarfod.

8) Materion Ariannol

8.1 Mantolen yn mynd i Elwen yn bresennol, angen newid i'w gyfeirio at GD. GD am drefnu hyn yn ystod newid y Mandad banc.

8.2 DR a GD am gydweithio ar baratoi at yr Archwiliad Blynyddol.

9) Panel Annibynnol ar gydnabyddiaeth Ariannol – Safbwynt aelodau Cyngor Cymuned Llangernyw
Penderfynnwyd pasio yr eitem yma ymlaen at yr agenda nesaf ar sail bod ambell beth yn parhau i fod yn aneglur.

10) Grantiau Cronfa Bro cernyw

10.1 Angen cael y Cyfansoddiad gan Elwen.

10.2 EW wedi gofyn i Elwen roi cais am arian am ei gwaith ar y Gronfa.

11) Cynnigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Unllais Cymru

11.1 Problemau Recriwtio Clercod - Ar sail y rhwystr mae Cymgor Cymuned wedi ei brofi o gyflogi Clerc newydd, mae angen codi y cwestiwn yma gan ei fod i weld yn broblem eang mewn Cynghorau Gwledig.

11.2 Cydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr – gan bod nifer o gwestiynnau wedi codi o'r mater yma, a bod elfennau ohono yn parhau i fod yn niwlog, mae y Cyngor wedi dewis hwn fel ail gwestiwn i'w gynnig.

EW i gyflwyno y ddau gwestiwn i Un Llais Cymru, ynghyd â'r rhesymeg tu ôl i'r cwestiynnau.

12) Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Cymru – Cynnigion drafft.

GW ac REW wedi ceisio darllen drwy y ddogfen yma, ac wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, ond am iddo gael ei basio ymlaen i Agenda cyfarfod mis nesa er mwyn cael mwy o amser i'w ddarllen.

13) Rhodd i Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy

GD wedi gweld mae £30 cafodd ei roi fel rhôdd i'r Eisteddfod yma yn y gorffennol, ac am roi yr un faint eto.

14) Sgipiau Cymunedol

AV wedi trefnu y sgipiau ym mhob un o'r tri pentref. Nodyn wedi mynd mewn o dan hanes bob pentref yn Y Gadlas i hysbysu.

15) Cynllun Iaith

Angen adolygu polisi y Cyngor ar y templed iaith. Nododd DR ei fod yn gyfle da i adolygu polisiau eraill y Cyngor hefyd.

Pasio hwn i'r cyfarfod nesa er mwyn cael mwy o drafodaeth pan fydd EHE yn bresennol.

16) Toiledau Llangernyw ac Ymgynghoriad Strategaethau Toiledau lleol.

AV yn nodi bod Non Davies wedi llenwi dogfen Ymgynghoriad ar ran Menter Bro Cernyw Cyf fel ymateb i'r ymgynghoriad yma.

GD yn holi ble roedd arian trydan y paneli solar yn mynd. Angen ymchwlio I hyn I wneud yn siwr bod Menter Bro Cernyw yn ei dderbyn. AV i e bostio Steve Teale eto.

17) Gohebiaeth

- **CVSC EW** i lenwi y ffurflenni i ail ymuno gyda CVSC a'u gyrru mlaen i GD cael ychwanegu sic.
- **CVSC Cwrs GDPR** DR am fynychu cwrs GDPR yn Glastir Llanrwst ar Fehefin y 18fed, yn cynrhychioli y Cyngor. GD i yrru sic i dalu ac i ail ymuno.
- **Conwy Cynhaliol** Ebst wedi dod gan Meira Woosnam am y cyfle i ariannu dodrefn o ddeunydd adnewyddadwy l'w lleoli mewn safleoedd cyhoeddus
- **Gwobr Pentrefi Cymru** Ffurflen gais wedi ei gyrru i'r Cyngor. AV wedi ei chymeryd I edrych drosti o ran gwneud cais yn enw Llangernyw. Anfon y manylion ymlaen i'r Cadweirydd (Pandy Tudur) ac EW (Gwytherin)

18) Biliau

Angen talu: Canolfan Gwytherin £36, D Evans £400, Dŵr Cymru £19.15, JK & EA Roberts £1840, CVSC £15 a £35 (Aelodaeth a cwrs GDPR)

19) Materion Lleol

- Bont gerdded Dôl Bach, angen ei adnewyddu (GD)
- Mae'r Ardd Goffa yn Llangernyw yn flêr. AV wedi cysylltu hefo y Cyngor ac mae nhw am ddod yna. Mae angen adnewyddu y meincniau.
- AV yn nodi ei bod wedi bod yn holi ynglyn â ydy Cyngor Conwy yn llenwi tybiau blodau o eiddo'r Cyngor eleni. Mae'r Clwb garddio yn llenwi rhai y Cyngor Cymuned.

20) Pwyllgor nesaf: 23ain o Fai yng Ngwytherin am 7.30pm

Diweddwyd y cyfarfod am 10.35pm

* Mae'r ffaith bod y Wê ar gael yn ystod y cyfarfod yn ddefnyddiol iawn ac yn arbed amser o ran gallu edrych ar y fforiwr Cynllunio. Mae sawl aelod o'r Cyngor heb gyswllt derbynniol â'r wê yn eu cartrefi felly yn gorfod astudio ceisiadau cynllunio ar y noson.

Cofnodion gan Einir Williams

25ain Ebrill 2018

Eitemau i'w roi ar agenda Mai 23ain 2018

Agenda Mis Mai 2018

- Cyfarfod blynyddol – dewis swyddogion
- Meirion Owen
- Adroddiad o'r Cyfarfod Unllais Cymru DR
- 7.1 Ymddiswyddiad y Clerc
- 7.2 Ôl Daliad y Clerc
- 7.2i Trefnu noson i ddiolch i Elwen
- 8. Mantolen Banc GD
- 9. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Safbwynt aelodau Cyngor Cymuned Llangernyw
- 10. Cyfansoddiad Cronfa Bro Cernyw
- 12. Arolwg o'r trefniadau Etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy – Cynigion draft
- 15. Cynllun Iaith EHE
- Gweithdrefnau y Cyngor – Archwiliad ariannol, cyfarfod Blynyddol a.y.b. DR, EHE a EW
- Taliad i doiledau Llangernyw o 2017/18

=